WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr S Smith
Prif Swyddog Tân
Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
Pencadlys
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
LL17 OJJ

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 25 Hydref 2012 |
| **Ein cyfeirnod** | 548A2012 |
| **Eich cyfeirnod** | |
| **Rhif Ffôn** | 02920 320500 |
| **E-bost** | Walesauditoffice @wao.gov.uk |
| **Tudalennau** | **1** o **7** |

Annwyl Simon

## Asesiad Gwella

Mae'n ofynnol i mi, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), gyflwyno adroddiad ar fy ngwaith archwilio ac asesu ynghylch a yw Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy marn ynghylch a yw'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chynllunio gwelliant;
- fy marn ar gydymffurfiaeth yr Awdurdod â'r gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus, yn seiliedig ar waith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys:
  - unrhyw faterion perthnasol a all fod wedi dod i'r amlwg ers fy adroddiad diwethaf, gan gynnwys sylwadau ar sut mae'r Awdurdod yn ymgysylltu â'r cyhoedd;
  - cynnydd yr Awdurdod mewn perthynas â meysydd i'w gwella ac argymhellion a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol.
- fy nghynigion pellach ar gyfer gwella a/neu argymhellion;
- diweddariadau i gynllun gwaith ac amserlen Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyflawni fy ngwaith ar yr Asesiad Gwella.

Byddaf yn diweddaru fy safbwyntiau yn ystod y flwyddyn ac yn anfon llythyr arall erbyn diwedd mis Ionawr 2013.

## Mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan y Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Deuthum i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Cafodd y Cynllun Gwella ei gyhoeddi yn unol ag amserlen Llywodraeth Cymru (i'w gyhoeddi erbyn 31 Hydref 2011 ar gyfer amcanion gwella 2012-13) ac mae bellach yn cael ei ddiweddaru. Cafodd yr amcanion gwella eu cadarnhau gan yr Awdurdod Tân ac Achub newydd yn dilyn etholiadau llywodraeth leol diweddar.
- Mae'r Awdurdod wedi rhoi esboniad cyffredinol ynghylch pam y cafodd ei ddau amcan gwella eu dewis ar gyfer 2012-13 gan gynnwys cyfeiriad at lefelau gweithgarwch a'r hinsawdd economaidd.
- Mae pob un o'r amcanion gwella yn disgrifio'r canlyniad a ddisgwylir, yr hyn y mae angen ei wneud i gyflawni'r gwelliannau a chaiff mesurau i ddangos bod hyn wedi'i wneud eu nodi yn y rhan fwyaf o achosion er bod yr Awdurdod yn parhau i ystyried pa fesurau perfformiad sydd orau yn hyn o beth.
- Nodir y camau sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion gwella mewn cynlluniau busnes adrannol a gaiff eu monitro'n fisol gan uwch reolwyr.
- Cynhaliodd yr Awdurdod ymgynghoriad ar ei amcanion gwella yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

## Ar sail gwaith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig iddo, credaf fod yr Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon

Deuthum i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

### Mae trefniadau cynllunio busnes wedi'u hymgorffori'n dda, maent yn darparu darlun clir o'r camau arfaethedig ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau ar y cyfan

Nodais, yn fy asesiadau blaenorol, fod arweinwyr yr Awdurdod yn parhau i lywio newid a dyma yw fy marn o hyd. Yn dilyn etholiadau llywodraeth leol yn gynharach yn 2012, mae aelodaeth yr Awdurdod Tân ac Achub wedi newid yn sylweddol: gwelwyd saith aelod yn dychwelyd; ac mae 21 o aelodau yn newydd ac yn gwasanaethu ar yr Awdurdod am y tro cyntaf. O ganlyniad, bwriedir cynnal digwyddiadau hyfforddi amrywiol er mwyn briffio aelodau'n llawn yn eu rolau newydd.

Nodais gynt hefyd y dylai blaenoriaethau gynnwys datblygu datrysiadau TGCh priodol i ategu'r broses o wneud penderfyniadau a sicrhau bod amcanion gwella yn fesuradwy ac y cyflwynir adroddiadau arnynt.

Gwnaed cynnydd i ehangu ystod y data sydd ar gael i reolwyr drwy ddatblygu trefniadau adrodd o'r system Cofnodi Digwyddiadau (IRS) a'r System Rheoli Cofnodion (RMS).

Er mwyn rhoi cyfle i aelodau newydd adolygu'r amcanion gwella a fabwysiadwyd ym mis Medi 2011, fe'u hailystyriwyd gan y Panel Gweithredol ym mis Gorffennaf 2012. Penderfynodd yr aelodau leihau nifer yr amcanion gwella o wyth i ddau er mwyn cyfleu neges glir am flaenoriaethau'r Awdurdod. Mae'r amcanion newydd fel a ganlyn:

- helpu i ddiogelu pobl a chymunedau drwy atal marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau damweiniol mewn lletyau preswyl;
- canfod ffyrdd o leihau costau cyffredinol rhedeg y gwasanaeth bob blwyddyn er mwyn gweithredu o fewn y gyllideb flynyddol.

Nid yw'r gweithgareddau a gynlluniwyd i gyflawni'r chwe amcan gwella y cytunwyd arnynt yn flaenorol wedi cael eu colli. Maent wedi cael eu cynnwys mewn cynlluniau gweithredu adrannol gan eu bod, mewn llawer o achosion, yn cynrychioli'r gweithgareddau beunyddiol sy'n cyfrannu at ddyletswydd gyffredinol yr Awdurdod i wella.

Bellach, mae angen i'r Awdurdod sicrhau bod rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn ymwybodol o'r amcanion gwella a ailbennwyd a'i fod yn cymryd camau i ddiweddaru'r fersiynau electronig o'r cynlluniau ar wefan yr Awdurdod.

Nid yw'r trefniadau arferol ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar berfformiad yn nodi'n llawn nac yn glir gynnydd i gyflawni amcanion gwella. Ar y cyfan, dangosir cynnydd drwy'r defnydd o ddangosyddion strategol a chraidd cenedlaethol Llywodraeth Cymru ynghyd â nifer fach o ddangosyddion lleol. Yn ystod 2012-13, mae'r Awdurdod yn bwriadu diwygio, o chwarter dau, ei adroddiadau i aelodau fel eu bod yn cynnwys cynnydd yn erbyn amcanion gwella ac mae wrthi'n ystyried y ffordd orau o wneud hyn. Mae hyn yn arbennig o wir am Amcan Gwella 2, y bydd angen ei gysylltu â'r trefniadau adroddiadau rheoli ariannol presennol.

Yn ddiweddar, nododd Llywodraeth Cymru ei bod yn bwriadu newid y broses gynllunio ar gyfer lleihau risg i awdurdodau tân ac achub yng Nghymru. Ni fydd angen cyhoeddi cynlluniau lleihau risg gwahanol ym mis Hydref 2012 ac mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y dylai'r holl weithgareddau 'gwella' arfaethedig fod wedi'u cynnwys yn y cynllun gwella. O ganlyniad i'r newid hwn, ni fydd angen i'r Awdurdod gynnal ymgynghoriad statudol 12 wythnos ar ei gynlluniau lleihau risg ond bydd angen iddo gyflawni ei ddyletswyddau ymgynghori o dan y Mesur. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae wedi gwneud hyn fel rhan o'r broses gynllunio statudol ar gyfer lleihau risg ac mae wrthi'n ystyried sut i fynd ati i wneud hyn fel rhan o'r gwaith o bennu ei amcanion gwella ar gyfer 2013-14.

## Mae'r Awdurdod yn parhau i reoli ei heriau ariannol yn effeithiol

Yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol blaenorol, deuthum i'r casgliad fod gan yr Awdurdod ddull cadarn o reoli materion ariannol ond, o ystyried maint y newid sydd ei angen, mae angen arweinyddiaeth glir. Credaf hyn o hyd.

Dengys y rhagolwg ariannol diweddaraf ar gyfer y cyfnod tair blynedd hyd at 2013-14 fod angen i'r Awdurdod gyflawni arbedion effeithlonrwydd rhagamcanol cronnol o £2.4 miliwn. Mae'r Awdurdod wrthi'n diweddaru'r rhagamcan fel rhan o'r gwaith o baratoi ar gyfer pennu cyllideb 2013-14 yn ddiweddarach yn y flwyddyn a fydd yn cynnwys rhagamcanion ar gyfer 2014-15. Mae KPMG hefyd wedi cynnwys adolygiad o'r broses gyllidebu fel rhan o'r archwiliad eleni.

Er bod dull yr Awdurdod o ymdrin â'i heriau ariannol, hyd yma, wedi bod yn gadarn a chael ei reoli'n dda, erys problemau o ystyried y tebygolrwydd o ostyngiadau termau real mewn cyllid canolog tan 2016-17 a thu hwnt. Mae'r Awdurdod yn parhau i chwilio am arbedion effeithlonrwydd yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u nodi. Caiff peth o'r gwaith hwn ei wneud drwy'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol a sefydlwyd yn ddiweddar a fydd yn ystyried y potensial am arbedion effeithlonrwydd a chydweithredu ar draws y tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru.

## Gwneir cynnydd da i ymdrin â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol

Cyflwynais nifer o gynigion ar gyfer gwella yn fy Llythyr Diweddaru o ran yr Asesiad Corfforaethol a'r Adroddiad Gwella Blynyddol blaenorol. Crynhoir hynt yr Awdurdod o ran gweithredu'r rhain yn Atodiad 1.

### Er bod rhai gwendidau, mae'r Awdurdod yn parhau i wella ei ddull o ymgysylltu â'r cyhoedd

Roedd y gwaith astudiaethau Cymru gyfan a gwblhawyd ers fy llythyr blaenorol yn cwmpasu dull yr Awdurdod o ymgysylltu â'r cyhoedd. Cyflwynwyd asesiad manwl o effeithiolrwydd trefniadau'r Awdurdod yn y maes hwn, a chynigion ar gyfer gwella, mewn adroddiad ar wahân. Daeth yr adroddiad i'r casgliad y gall yr Awdurdod ddangos ei fod yn ymgysylltu'n effeithiol ar lefel weithredol a'i fod yn dangos ymrwymiad cryf tuag at ymgysylltu â'r cyhoedd yn fwy. Mae angen iddo nawr ddatblygu dull strategol, mwy cydgysylltiedig o weithredu er mwyn egluro'r disgwyliadau a'r adnoddau sydd eu hangen i ymgysylltu â'r cyhoedd yn y dyfodol a gwerthuso hynny.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella

Caiff dau gynnig newydd ar gyfer gwella eu hawgrymu yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd a wneir gan yr Awdurdod o ran gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol a chyflwyno adroddiadau arno.

| **Cynigion ar gyfer gwella**[1] | |
|---|---|
| C1 | Parhau i ddatblygu prosesau corfforaethol er mwyn hyrwyddo'r gwaith o ymgysylltu â'r cyhoedd yn arbennig:<br>• datblygu dull arfaethedig, cydgysylltiedig a mwy strategol o ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn lleihau nifer yr achosion o ddyblygu gwaith a sicrhau'r effaith a'r canlyniadau mwyaf;<br>• nodi, diffinio a blaenoriaethu pa fath o weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n hanfodol i'r Awdurdod, ei bartneriaid a'r cyhoedd a wasanaethir ganddo;<br>• nodi'r adnoddau sydd eu hangen a manteisio ar orsafoedd tân lleol ac allgymorth er mwyn eu hannog i ymgysylltu â'u cymunedau lleol;<br>• datblygu prosesau a strwythurau i helpu i baratoi ac ymdrin â sefyllfaoedd dadleuol a phenderfyniadau anodd posibl - er mwyn asesu lefel y risg a nodi camau lliniarol. |
| C2 | Datblygu ffyrdd o ddefnyddio a gwerthuso canlyniadau gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd yn ehangach, a hysbysu'r cyhoedd am sut mae ei fewnbwn wedi dylanwadu ar yr hyn a wna'r Awdurdod. |

[1] Mae cynigion C1 a C2 wedi'u cynnwys yn ein Hadroddiad Ymgysylltu â'r Cyhoedd (Awst 2012).

## Diweddariadau i'r cynllun gwaith a'r amserlen

Bydd fy Nhîm ar gyfer yr Asesiad Gwella yn sicrhau bod yr Awdurdod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau manwl ar gyfer cyflwyno fy ngwaith asesu yn ystod 2012-13. Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen a gaiff eu diweddaru'n rheolaidd yn rhoi rhagor o fanylion am sut rydym yn bwriadu targedu adnoddau yn ystod yr asesiad eleni ac yn benodol sut y byddwn yn ychwanegu gwerth drwy ganolbwyntio ar feysydd neu wasanaethau a nodwyd ar y cyd.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen yn ystyried fy ymgynghoriad â'r awdurdodau gwella ar fy nghynigion ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2012-13. Yn benodol, byddaf yn gofyn i Dîm yr Asesiad Gwella ystyried yn ystod y flwyddyn faint y gallwn ddibynnu ar y prosesau hunanasesu, gan gynnwys ei adolygiad o lywodraethu wrth lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol. Byddaf yn gwneud sylwadau ar y gwaith hwn yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol.

Rwy'n ddiolchgar i'r Awdurdod am y ffordd y mae wedi helpu i hwyluso ein gwaith a gobeithiaf weld trefniadau hyd yn oed yn fwy effeithiol ac effeithlon yn datblygu dros amser. Rwyf yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu lefelau priodol o sicrwydd cyhoeddus gan eich helpu ar yr un pryd i liniaru'r risgiau anochel i wasanaethau ac atebolrwydd sy'n deillio o leihad mewn adnoddau a newidiadau o ganlyniad i hynny.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

CC: Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Lisa Williams, Arweinydd Archwilio Perfformiad

# Atodiad 1

| Cynigion ar gyfer gwella | | Cynnydd |
|---|---|---|
| C1 | Parhau i weithredu cynigion blaenorol ar gyfer gwella er mwyn atgyfnerthu amcanion gwella a mesurau perfformiad ac adrodd cysylltiedig fel eu bod yn canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau o ran nodi a gwerthuso effaith ei weithgareddau ar gyfer ei gymuned. | Mae'r Awdurdod wedi ailbennu ei amcanion gwella ar gyfer 2012-13, er mwyn nodi'n gliriach ei brif flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn.<br>Mae'r Awdurdod wrthi'n ystyried sut y bydd yn adrodd ar gynnydd yn erbyn yr amcanion gwella hyn a chynlluniau gweithredu cysylltiedig o ail chwarter 2012-13 gan gynnwys y gyfres fanwl o fesurau y bydd yn eu defnyddio.<br>Bu rhywfaint o godi ymwybyddiaeth ymhlith rheolwyr o ran cyflwyno methodoleg Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau i'w cynlluniau busnes, gyda'r nod o ganolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau yn y misoedd i ddod. |
| C2 | Gweithredu meysydd ar gyfer gwella a nodwyd yn ein hadolygiad Rheoli Gwybodaeth. | Mae sawl maes ar gyfer gwella yn parhau i gael eu hasesu gan yr Awdurdod yng nghyd-destun blaenoriaethau eraill a'r rhaglen waith a ddisgwylir yn y dyfodol gan y Pwyllgor Materion Cenedlaethol newydd. |
| C3 | Gweithredu meysydd ar gyfer gwella a nodwyd yn ein hadolygiad o'r defnydd o dechnoleg. | Mae'r Awdurdod wrthi'n datblygu strategaeth TGCh pum mlynedd newydd ac mae'n gwneud rhywfaint o gynnydd o ran dogfennu, cyhoeddi a hyrwyddo safonau a pholisïau technoleg.<br>Mae'n parhau i gyflwyno ffyrdd newydd o ddefnyddio technoleg er mwyn safoni prosesau a gweithdrefnau busnes a manteisio i'r eithaf arnynt ee, ar gyfer rhai o'i brosesau ariannol ac archebu, ac mae'n ystyried sut i gyflwyno mwy o fesurau monitro a mesur ar gyfer effeithiolrwydd ac effaith technoleg a boddhad defnyddwyr gwasanaethau drwy fethodoleg Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau. |
| C4 | Ymdrin â materion sy'n deillio o archwiliad gwybodaeth am berfformiad o ran y ffordd y mae 'digwyddiadau ar draws y ffin' yn cael eu trin. | Cyflwynwyd prosesau newydd i reoli 'digwyddiadau ar draws y ffin' a sicrhau bod y gwaith cofnodi ac adrodd rhwng awdurdodau tân ac achub cyfagos yn dilyn canllawiau cenedlaethol a gyhoeddwyd mewn perthynas ag IRS. |
| C5 | Mynd i'r afael â'r awgrymiadau a wnaed yn Llythyr yr Archwilydd Penodedig ynghylch llunio adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio ar ganfyddiadau gwaith Archwilio Mewnol. | Adroddiad yn crynhoi gweithgarwch archwilio mewnol yn 2011-12 a ddarparwyd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Archwilio ym mis Medi 2012. Mae'r atodiad i'r adroddiad hwnnw yn nodi pob maes archwilio a'r argymhellion a'r farn archwilio yn deillio o'r archwiliadau hynny. |